RHONDDA CYNON TAF

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**10 HYDREF 2018**

**GWASANAETHAU CYMRAEG –**
**ARCHWILIADAU MEWNOL O GYDYMFFURFIAETH**

**ADRODDIAD CYFARWYDDWR MATERION IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD, A GWASANAETHAU CYMUNED MEWN TRAFODAETH Â'R AELOD PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y CYNG. G. HOPKINS.**

**Awduron**: Wendy Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned (01443 744111)
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg (01443 570002)

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Diben yr adroddiad yw rhoi amlinelliad i Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion y Gymraeg o'r broses y mae Gwasanaethau Cymraeg wedi'i mabwysiadu er mwyn archwilio lefel cydymffurfiaeth adrannau â Safonau'r Gymraeg, gan dynnu sylw at achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio, ac i gynnig atebion i fynd i'r afael â hyn.

1.2 Mae modd gweld sampl o'r archwiliadau a gafodd eu cwblhau gan y Swyddog Cydymffurfio yn Atodiad 1 ac Atodiad 2.

## 2. ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i aelodau Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

2.1 Nodi cynnwys yr adroddiad;

2.2 Trafod a oes angen rhagor o wybodaeth;

2.3 Cymeradwyo cynnal archwiliadau pellach er mwyn lleihau'r risg i'r Cyngor, a chynnig atebion er mwyn i feysydd gwasanaeth fynd i'r afael ag unrhyw achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio.

## 3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

3.1 Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i roi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i gydymffurfio â Safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg. Yn benodol, mae hyn yn golygu nad oes hawl gydag

Awdurdodau Lleol drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a rhaid iddyn nhw hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, gan ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

3.3 Mae'r Safonau'n effeithio ar holl feysydd gwaith y Cyngor ac mae modd i'r Comisiynydd bennu cosb o hyd at £5,000 ym mhob achos lle mae tystiolaeth bod Safon sydd wedi'i thorri.

3.4 Mae'r Cyngor wedi bod yn destun nifer o ymchwiliadau statudol ac mae modd iddyn nhw gymryd hyd at 18 mis i'w cwblhau. Mae ymchwiliadau o'r fath wedi defnyddio llawer iawn o amser swyddogion. Yn fwyaf diweddar, ar ôl ymchwiliad a gafodd ei gynnal yn unol ag adran 71 ac Atodlen 10 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â Safon 4 (Pan fyddwch chi'n anfon yr un ohebiaeth i sawl person, rhaid anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg). Mae'r Safon yma yn gymwys hyd yn oed os yw'r dewis iaith wedi'i bennu.

3.5 Mae cynnal archwiliadau mewnol rheolaidd i asesu lefel cydymffurfiaeth gwasanaethau'r Cyngor yn sicrhau bod modd nodi unrhyw achosion posibl o dorri safonau, neu unrhyw feysydd lle mae heriau penodol, a mynd i'r afael â nhw ar unwaith cyn i gŵyn gael ei chyflwyno i Swyddfa'r Comisiynydd.

## 4. <u>CEFNDIR</u>

4.1 Er mwyn bod yn barod i weithredu Safonau Statudol y Gymraeg, cafodd strwythur Uned Gwasanaethau Cymraeg ei adolygu a chafodd swydd ddisgrifiadau eu diwygio. Roedd hyn er mwyn paratoi'r Cyngor yn ddigonol wrth dderbyn ei Hysbysiad Cydymffurfio ym mis Medi 2015, a gafodd ei ddiwygio yn 2016. Yn rhan o'r strwythur newydd, cafodd swydd Swyddog Datblygu'r Gymraeg ei disodli gan swydd Swyddog Cydymffurfio. Roedd hyn yn newid sylweddol ac roedd yn pwysleisio statws cyfreithiol newydd y Gymraeg a phwysigrwydd cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd i holl wasanaethau'r Cyngor.

4.2. Roedd Carfan Archwilio'r Cyngor wedi cynghori ar y dull i'w fabwysiadu wrth gynnal archwiliadau ac mae'r Swyddog Cydymffurfio wedi gweithio'n agos â'r garfan Archwilio i ddatblygu'r prosesau angenrheidiol.

4.3 Ers cyflwyno Safonau'r Gymraeg, mae Llywodraeth Cymru wedi pasio deddfwriaeth bellach, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a strategaeth Cymraeg 2050. Mae'r rhain wedi pwysleisio ymhellach bwysigrwydd y Gymraeg, ac mae bodloni gofynion y Safonau yn ganolog i lwyddiant llawer ohonyn nhw.

4.4 Fel y mae'n cael ei nodi yn 3.3 uchod, byddai methu â chydymffurfio â gofynion y Safonau yn peryglu'r Cyngor yn ariannol, yn ogystal â bod yn risg i'w enw da. Felly, nid yn unig y mae'r Swyddog Cydymffurfio yn cynnal archwiliadau i asesu'r lefel cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau, ond mae hefyd yn darparu ystod eang o gyngor a chymorth i swyddogion y Cyngor ar sut i

fynd i'r afael ag unrhyw heriau maen nhw'n eu hwynebu mewn perthynas â sefydlu'r Safonau perthnasol yn rhan o'u meysydd gwasanaeth eu hunain.

## 5. SEFYLLFA BRESENNOL

5.1 Mae archwiliadau llawn o ddau faes gwasanaeth wedi'u cynnal ers penodi'r Swyddog Cydymffurfio hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae archwiliadau pellach ar y gweill, ac mae un ohonyn nhw yn ganlyniad uniongyrchol i benderfyniad Comisiynydd y Gymraeg bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â Safon 4.

5.2. Yn ogystal â chreu cyfle i fesur lefel cydymffurfiaeth, mae'r ddau archwiliad wedi rhoi cyfle i uwch-swyddogion ddeall y Safonau yn well, a sut maen nhw'n berthnasol ac unigryw i'w maes gwasanaeth nhw. Yn ogystal â hyn, mae'r uwch-swyddogion hefyd wedi cael cyfle i ddysgu am y cyd-destun cenedlaethol. Hefyd, maen nhw'n rhoi cyfle i godi pryderon a thrafod unrhyw faterion sy'n eu hatal rhag gweithredu yn y modd cywir.

5.3 Mae adroddiadau archwilio yn cael eu llunio sy'n cwmpasu 10 thema'r Safonau – sef 5 maes y Safonau (cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu, hybu, cadw cofnodion) a'r Safonau atodol sy'n berthnasol i'r 5 maes.

5.4 Mae lefel cydymffurfiaeth yn cael ei bennu i bob maes, h.y. ffigwr canran ar gyfer y Safonau perthnasol lle mae tystiolaeth o gydymffurfiaeth. Mae pum lefel wedi'u nodi ar y daenlen gofnodi. Mae hyn yn caniatáu i'r Swyddog Cydymffurfio greu'r darlun mwyaf cynhwysfawr o wasanaethau a lefelau cydymffurfiaeth yn ôl themâu'r Safonau yn hytrach nag yn erbyn pob Safon unigol. Mae'r dull yma'n haws i uwch-swyddogion fonitro ac mae'n caniatáu i adrannau flaenoriaethu rhai themâu penodol y mae angen eu canolbwyntio arnyn nhw o'u cymharu ag eraill.

5.5 Mae'r adroddiad archwilio hefyd yn gwneud argymhellion ar y camau sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio neu wella prosesau.

5.6 O ran y ddau faes gwasanaeth sydd wedi bod yn destun archwiliadau llawn hyd yn hyn (Gwasanaeth Adnoddau Dynol a'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd), mae lefel cydymffurfiaeth wedi'i gyflawni mewn nifer o feysydd. Serch hynny, mae tystiolaeth yn awgrymu bod angen rhagor o waith er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

## 6. CAMAU NESAF

6.1 Bydd Gwasanaethau'r Gymraeg yn parhau i weithredu cylch archwilio sy'n canolbwyntio ar feysydd sydd wedi'u hamlinellu yn Adroddiad Sicrwydd Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg. Bydd archwiliadau dilynol hefyd yn cael eu cynnal i wirio cynnydd y gwasanaethau hynny lle mae gwelliannau wedi'u hargymell.

6.2. Bydd swyddogion Gwasanaethau Cymraeg yn cyflwyno papur yn Seminar Arferion Llwyddiannus Comisiynydd y Gymraeg ym mis Tachwedd 2018 ar gynnal archwiliadau yng nghyd-destun cydymffurfio â dyletswyddau ieithyddol statudol gan fod hyn wedi'i nodi fel enghraifft o arfer da yn Adroddiad Sicrwydd Blynyddol y Comisiynydd.

6.3 Bydd y Swyddog Cydymffurfiaeth yn parhau i weithio'n agos ag adrannau er mwyn mynd i'r afael â materion a'u datrys, gan gynnwys rhannu tystiolaeth ar sut mae meysydd gwasanaeth ac awdurdodau eraill wedi gwneud hyn yn llwyddiannus, gan mai prif nod yr archwiliadau yw cefnogi'r Cyngor a lleihau'r risg iddyn nhw, yn hytrach na'u bychanu.

**7. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**

7.1 Does dim angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad yma.

**8. YMGYNGHORI**

8.1 Does dim ymgynghoriad ar gyfer yr adroddiad yma.

**9. GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL**

9.1 Does dim goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma. Fodd bynnag, os caiff achosion o ddiffyg cydymffurfio eu nodi mewn meysydd gwasanaeth, efallai y bydd costau ac adnoddau ynghlwm â nhw. Yn ychwanegol at y costau staffio sydd ynghlwm ag ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg, os yw'r Comisiynydd yn penderfynu bod achos o ddiffyg cydymffurfio, mae modd cael cosb ariannol o hyd at £5,000.

**10. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau Statudol ar gyfer y Gymraeg 2015 sy'n rheoleiddio'r gwaith yma.

**11. CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â'R DDEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

11.1 Mae'r Gymraeg yn thema drawstoriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2016 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ogystal â Strategaethau mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg a gafodd eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

11.2 Mae gwaith y Swyddog Cydymffurfio yn rhan o'r dull hirdymor o sicrhau bod holl Wasanaethau'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg. Mae'r dull sydd wedi'i fabwysiadu yn un o gydweithio â meysydd gwasanaeth er mwyn lleihau'r risg o achosion o ddiffyg cydymffurfio ac atal cwynion rhag

cael eu cyflwyno i Swyddog Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â lefel cydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau'r Gymraeg. Mae ystod o wasanaethau wedi cyfrannu adborth ar y broses sydd wedi'i mabwysiadu, ac mae'r berthynas waith agos gyda'r Garfan Archwilio wedi sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio dull archwilio integredig.

11.3 Mae'r gwaith sy'n cael ei amlinellu yn yr adroddiad yma yn arbennig o berthnasol i'r nodau lles canlynol:

- Cymru Gyfartal – mae'n sicrhau bod modd i drigolion Rhondda Cynon Taf gael gwasanaethau yn eu dewis iaith
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – mae'n cefnogi normaleiddio'r Gymraeg a'i ddefnydd mewn bywyd bobdydd.

## 12. CASGLIAD

12.1 Mae'r lefel cynyddol o gydymffurfiaeth o ganlyniad i waith a chymorth y Swyddog Cydymffurfio yn dystiolaeth gadarn o dwf a datblygiad. Wrth i'r system archwilio ddatblygu, bydd tystiolaeth feincnod pellach ar gael i bob adran o'r Cyngor. Yna, bydd ail archwiliad llawn o adrannau yn caniatáu i'r Cyngor fesur lefelau cydymffurfiaeth parhaus yn erbyn y Safonau, gyda'r cynnydd wedi'i nodi yn erbyn y pwyntiau gweithredu yn yr adroddiad archwilio gwreiddiol.

12.2 Nod Comisiynydd y Gymraeg yw annog cydymffurfiaeth trwy rymuso a galluogi sefydliadau. Un o'r ffyrdd y mae'r Comisiynydd yn cyflawni hyn yw trwy dynnu sylw at enghreifftiau o arferion da. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi nodi penderfyniad Rhondda Cynon Taf i gynnal cylch o archwiliadau mewn perthynas â sut mae meysydd gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel enghraifft o arfer da ac, yn hynny o beth, dylai'r arfer da yma gael ei rannu â sefydliadau eraill, gan obeithio y byddan nhw hefyd yn ei weithredu.